



Nodiadau Canllaw Pecyn Cymorth Hwb Menter

Pecyn cymorth dewisol yw hwn a ddarperir gan Hwb Menter i roi cymorth ariannol i unigolion sy'n dymuno sefydlu menter newydd yng Ngwynedd a/neu Ynys Môn.

PWRPAS Y PECYN CEFNOGAETH

Pwrpas y pecyn cymorth yw darparu pecyn cofleidiol llawn o gefnogaeth ymarferol a chymorth ariannol wedi'i deilwra i helpu unigolion sy'n byw yng Ngwynedd a/neu Ynys Môn i lywio cymhlethdodau sydd yn gysylltiedig â sefydlu busnes, mewn modd sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl am lwyddiant a gwytnwch yn y dyfodol.

Yn ogystal â chymorth ariannol, bydd pob ymgeisydd yn derbyn mynediad i sesiynau cyngor un i un, cyfleoedd rhwydweithio, yn ogystal â gweithdai gwybodaeth sy'n cwmpasu ystod eang o sgiliau allweddol sydd eu hangen i lwyddo mewn busnes. Bydd y pynciau a drafodir yn cynnwys elfennau megis cynllunio busnes, rhagolygon ariannol, cyfreithlondeb mewn busnes, hunanasesiad ar-lein, brandio, marchnata ac ati.

YR HWB MENTER

Mae'r Hwb Menter, sef prosiect Menter Môn, sydd wedi'i leoli yn M-SParc, Gaerwen a Hwb Arloesi, Porthmadog, yn rhoi'r wybodaeth, arweiniad, ysbrydoliaeth a gofod i entrepreneuriaid drawsnewid eu syniad yn fusnes llwyddiannus. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys:

- Gofod swyddfa ar gyfer cyd-weithio
- Cymuned o unigolion o'r un anian i rannu syniadau a chynnig anogaeth
- Cyngor busnes un i un
- Ystod o ddigwyddiadau addysgol/cymdeithasol
- Gofod-Creawdwr Ffiws
- Rhaglen cychwyn busnes Miwtini

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld ar www.hwbmenter.cymru. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael mynediad at yr ystod lawn o bortffolio eang o brosiectau Menter Môn, yn amrywio o Ynni Llanw Morlais, i Fenter Iaith, i Drefi SMART. Mae rhagor o wybodaeth am brosiectau cyfredol Menter Môn ar www.mentermon.com.

Ariennir y prosiect hwn yn rhannol gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, trwy Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Nuclear Restoration Services Ltd ar ran yr Awdurdod Datgomiynau Niwclear (NDA).



MEINI PRAWF

Mae pecyn cymorth o hyd at £2500 ar gael i helpu unigolion sy'n byw yng Ngwynedd a/neu Ynys Môn i sefydlu menter newydd. Rhaid i ymgeiswyr fod dros 16 mlwydd oed a heb fod eisoes wedi sefydlu eu menter newydd ar adeg gwneud cais. Cyfradd ymyrraeth y pecyn cymorth fel arfer fydd 75%, sy'n golygu y bydd yr ymgeisydd yn cyfrannu 25% at y costau cyffredinol y gwneir cais amdanynt. Mae Hwb Menter yn cadw'r hawl i newid y gyfradd ymyrraeth pan ystyrir bod angen gwneud hynny.

Ni fydd mentrau newydd sy'n actif ym meysydd hyrwyddo safbwyntiau crefyddol neu wleidyddol; gamblo; pornograffi; cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; ac unrhyw sectorau eraill y bernir eu bod yn amhriodol neu'n ddadleuol, neu'n gysylltiedig â'r rhain yn gymwys.

GWARIANT CYMHWYSO

Mae Hwb Menter yn awyddus i annog cleientiaid i ystyried cynnwys gwariant sy'n gysylltiedig â chymorth arbenigol proffesiynol megis cyfrifeg, brandio neu wasanaethau marchnata, a fydd yn rhoi sylfaen gref i'w menter newydd y bydd y busnes yn ffynnu arni. Bydd gwariant ar eitemau megis offer yn cael ei gapio er mwyn annog gwariant pellach ar hanfodion eraill.

Gallai gwariant cymwys gynnwys:

- Gwasanaethau Cymorth Arbenigol, e.e.
 - Brandio a dylunio logo
 - Datblygu a chynnal gwefan
 - Creu ymgyrch farchnata
 - Creu cynnwys a chynllunio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
 - Ffotograffiaeth cynnyrch a brand
 - Y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus
 - Dogfennau Cyfreithiol (Telerau ac Admodau ac ati)
 - Cyfrifo (Cyngor cyffredinol, cyfrifon diwedd blwyddyn ac ati)
 - Systemau a phrosesau TGCh
 - Technoleg digidol
 - Cyngor ar Eiddo Deallusol
 - Datblygu cynnyrch yng Ngofod-Creawdwr Ffiws
 - Ac ati.
- Aelodaeth, e.e.
 - Sefydliadau sector penodol fel y Siambr Fasnach a Ffederasiwn Busnesau Bach
 - Grwpiau rhwydweithio
 - Ac ati.
- Tanysgrifiadau, e.e.
 - Pecynnau meddalwedd fel Xero a Quickbooks
 - Cylchgronau masnach
 - Ac ati.
- Achrediadau, e.e.
 - Sector proffesiynol penodol megis Hylendid Bwyd
 - Amgylcheddol megis The Planet Mark
 - Amrywiaeth ac iechyd a lles megis Hyder o ran Anabledd
 - Ac ati.

- Hyfforddiant
- Cyflusterau
- Yswiriant
- Tenantiaeth Swyddfa Rithiol
- Argraffu
- Asesiadau Risg
- Cynadleddau/Digwyddiadau Rhanddeiliaid Allweddol
- Offer (Hyd at £1000 fesul cais) - lle nad yw'n cael ei ystyried yn gost cyfalaf trwy ymddangos ar fantolen y cwmni.

Sylwch, nid yw'r uchod yn rhestr hollgynhwysfawr. Efallai y bydd eitemau gwariant eraill yn cael eu hystyried. Caiff ceisiadau eu gwerthuso fesul achos. Nid yw'r pecyn cymorth wedi'i fwriadu i gefnogi tynnu arian personol o'r busnes na phrynu stoc. Nid yw unrhyw gyflenwyr sy'n cael eu hawgrymu gan Hwb Menter yn rhestr hollgynhwysfawr, ac nid yw wedi'i chymeradwyo gan Hwb Menter. Dylech sicrhau eich diwydrwydd dyladwy eich hun wrth ddewis cyflenwyr.

Bydd disgwyl i brosiectau ddilyn canllawiau caffael y sector cyhoeddus. Mae angen un dyfynbris gyda gwariant rhwng £0-£2499, tri dyfynbris gyda gwariant rhwng £2500-£24,999 ac mae angen proses dendro ffurfiol gyda gwariant rhwng £25,000-£181,499. Bydd angen tystiolaeth o'r broses gaffael yn ogystal â chopi o'r cofnod tendro cystadleuol ar gyfer unrhyw wariant unigol dros £2499.

Y BROSES YMGEISIO

1. Darllenwch y dogfennau canllaw i sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf.
2. Cysylltwch â Hwb Menter ar post@hwbmentor.cymru / 01248 858 070 i asesu pa un o'r ddau lwybr posibl i gael mynediad at y pecyn cymorth sydd fwyaf addas:
 - a. **Platinwm** – Mae'r llwybr trochi hwn yn golygu ymuno â charfan o WYTH unigolyn wyneb yn wyneb/ar-lein ar raglen sefydlu **Miwtni**. Dros gyfnod o wyth wythnos (1 sesiwn yr wythnos) byddwch yn adeiladu cymuned gefnogol ar yr un daith, yn casglu cyfoeth o wybodaeth ar bynciau hanfodol yn amrywio o gynllunio busnes i farchnata a chyllid, a ddarperir gan arbenigwyr yn eu meysydd, gan fanteisio ar brofiadau byw gan siaradwyr gwadd. Bydd cyngor un i un hanfodol gan Ymgynghorwyr Busnes gwybodus hefyd yn cael ei gynnwys. Mae hon yn rhaglen ecsgliwsif, gydag unigolion yn cael eu dewis i fanteisio i'r thema sectoraidd a ddewiswyd e.e. manwerthu stryd fawr, creadigrwydd, elfenau amgylcheddol ac ati. Bydd un cyfranogwr lwcus hefyd yn ennill £1,000 ychwanegol os bydd yn fuddugol yn y sesiwn Taro'r Nodyn ar ddiwedd y rhaglen.
 - b. **Aur** – Mae'r llwybr trochi llai hwn yn cynnwys mynychu gweithdy cynllunio busnes a rhagolygon llif arian **Hanfodion Busnes**, ynghyd â sesiynau un i un gydag Ymgynghorydd Busnes gwybodus. Ni fydd unrhyw gymorth ariannol ychwanegol ar gael fel gyda'r rhaglen fwy dwys, Miwtini.
3. E-bostiwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r dogfennau cysylltiedig at eich Ymgynghorydd Busnes penodedig i'w hasesu, lle bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cynnal.

Bydd ceisiadau ar sail treigl y cyntaf i'r felin, ac yn cael eu hasesu gan banel yn fisol nes bod y gyllideb gyfan wedi'i dyrannu.

Disgwylir i bob ymgeisydd gymryd rhan yn y cymorth paratoadol cyn-cychwyn uchod er mwyn cwblhau'r achos busnes, cydnabod a derbyn y telerau ac amodau a choladu'r ddogfennaeth ategol angenrheidiol. Dim ond un cais a dderbynnir fesul busnes/unigolyn.

Bydd angen i ymgeiswyr ddatgan unrhyw ffynonellau cyllid eraill a dderbyniwyd i gefnogi'r fenter newydd. Mae Hwb Menter yn cynnig Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) o dan y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Cyn prosesu unrhyw daliadau, mae angen cadarnhad wedi'i lofnodi yn nodi na fydd derbyn y taliadau yn fwy na'ch trothwy MFA o £315,000 wedi cronni dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, fel y nodir yn adran 36(1) o [Ddeddf Rheoli Cymhorthdal \(2022\)](#).

Rhaid cyflwyno cais llawn ac achos busnes ategol o leiaf bythefnos cyn dechrau'r busnes. Ni ellir dyfarnu pecynnau cymorth unwaith y bydd y busnes wedi dechrau masnachu. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus ymdrechu i gychwyn y busnes cyn gynted â phosibl, fan bellaf cyn Tachwedd 2024. Mae'n bosibl y bydd angen cwblhau/cyflwyno gwariant a thystiolaeth ategol cyn y dyddiad hwn, bydd manylion yn cael eu cynnwys ar y llythyr cadarnhau cais llwyddiannus. Gallai methu â gwneud hynny olygu bod Hwb Menter a/neu ei gontractwyr penodedig yn cadw'r hawl i adennill yr arian. Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu, e.e. copi o'r anfoneb gyntaf, ac wedi cymryd camau i gofrestru'r busnes ar gyfer yr endid a ddewiswyd ganddo gyda CThEM (e.e. statws cwmni cyfyngedig / hunangyflogaeth).

Rydym ni wedi ymdrechu i symleiddio'r ffurflen gais cymaint â phosibl er mwyn dileu cynnwys gwybodaeth wedi'i dyblygu yn ein dogfen gofrestru prosiect a'ch cynllun busnes. Fodd bynnag, at ddibenion diwydrwydd dyladwy bydd angen y canlynol:

- Gwybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd'. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn gywir.
- Gwybodaeth am faint o gyllid rydych chi'n gwneud cais amdano a dadansoddiad o'r hyn rydych chi'n bwriadu defnyddio'r pecyn cymorth ar ei gyfer.
- Dogfennau ategol megis dyfynbrisiau, cyfriflenni banc, prawf adnabod, cynllun busnes gan gynnwys cynllunydd cyllideb personol, anfonebau ac ati.
- Manylion banc er mwyn prosesu taliadau lle bo angen. Sicrhewch fod y manylion banc cywir yn cael eu darparu. Dim ond i'ch cyfrif banc personol y gellir talu; ni fyddwn yn talu i mewn i gyfrifon Busnes neu gyfrif banc rhywun arall. Bydd manylion banc anghywir yn arwain at beidio â thalu'r pecyn cymorth neu bydd oedi wrth dalu.
- Cofnod o unrhyw gyllid arall a dderbyniwyd sy'n cyfrannu at eich lwfans cymorthdaliadau MFA o £315,000 neu fathau tebyg o gymorthdaliadau (gweler adran 42(8) o'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal), dros gyfnod cyllidol o dair blynedd. Mae trothwy ariannol MFA yn berthnasol ar lefel grŵp cwmni. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach [yma](#).
- Llofnodion i ddatgan eich bod yn deall ac yn derbyn y pecyn cymorth.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn gwneud cais, neu os oes gennych chi unrhyw bryderon na fyddwch yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses am resymau meddygol/technegol/gofalu, cysylltwch â'r Hwb Menter i drafod cymorth ychwanegol posibl.

Bydd cais Pecyn Cymorth aflwyddiannus yn dal i dderbyn cefnogaeth barhaus gan Hwb Menter, bydd mynediad i'r holl wasanaethau eraill a gynigir yn dal ar gael.

AD-DALU'R PECYN CEFNOGAETH

Dylai ymgeiswyr nodi efallai y bydd yr Hwb Menter angen ad-daliad o'r pecyn cymorth, yn llawn neu'n rhannol os na fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais, neu os nad yw'r telerau ac amodau'n cael eu bodloni'n llawn. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb fel y cyfryw a gellir gorfodi hyn trwy ofyn am brawf ar ôl dyfarnu pecyn cymorth.

Telerau ac Amodau Pecyn Cymorth Hwb Menter

1. Mae talu'r pecyn cymorth hwn yn ôl disgrisiwn llwyr yr Hwb Menter.
2. Gall yr Hwb Menter atal neu adennill y cyllid mewn rhai amgylchiadau.
3. Lle bo'n briodol, gwneir taliad trwy drosglwyddiad banc i'ch cyfrif banc enwebedig ar ôl i dystiolaeth ddigonol gael ei chasglu.
4. Rhaid i'r unigolyn neu'r cwmni sicrhau, at ddibenion y Prosiect, ei fod yn cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd a/neu Ganllawiau Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion am y rheolau cymorth gwladwriaethol penodol sy'n berthnasol i'w gweld [yma](#). Mae rhagor o fanylion am Ganllawiau Rheoli Cymhorthdal penodol Llywodraeth y DU ar gael [yma](#). Mae'r cwmni'n gyfrifol am sicrhau bod y pecyn cymorth yn cael ei ddarparu yn unol â'r meini prawf cymorth gwladwriaethol y dyfernir y cyllid arnynt.
5. Cymorth a ddarperir o dan 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol' (SAFA) fel y'i diffinnir gan Erthygl 364, paragraff 4, Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE. Mae hyn yn caniatáu darparu hyd at 325,000 o Hawliau Tynnu Arbennig, neu tua £330,000 i un actor economaidd dros unrhyw gyfnod o dair blynedd ariannol. Mae'r trothwy hwn yn cynnwys unrhyw gymorth SAFA neu gymorth *de minimis* yr UE a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, o bob ffynhonnell.
6. Sylwch y gallai gwybodaeth a gedwir gan yr Hwb Menter gael ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Yn ymarferol, ni fyddwn yn datgelu nac yn rhyddhau unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif a ddarperir gennych chi heb ymgynghori â chi o flaen llaw, ond yn y pen draw yr Hwb Menter fydd yn penderfynu a ddylid ei datgelu yng ngoleuni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.
7. Drwy wneud cais am y pecyn cymorth hwn rydych chi'n cytuno i dderbyn y telerau ac amodau hyn. Mae derbyniad yn cael ei ddilysu trwy lofnodi a chyflwyno'r ffurflen gais.
8. Sylwch na fydd unrhyw daliadau'n cael eu gwneud gan Hwb Menter i'r Cwmni hyd nes y byddwch chi wedi dychwelyd y dystiolaeth ofynnol.
9. Bydd unrhyw gyllid a ddyfernir yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a gymeradwywyd yn y cais yn unig, ac mewn unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo.
10. Rhaid hawlio'r cyllid cyn y dyddiad a nodir ar y llythyr cais llwyddiannus, a rhaid i'r fenter newydd ddechrau cyn mis Tachwedd, 2024.
11. Bydd y Cwmni'n darparu'r holl wybodaeth i Hwb Menter am ei weithgareddau neu ei weithgareddau arfaethedig, ac am ei ddefnydd neu ddefnydd arfaethedig o'r cyfan neu unrhyw ran o'r cyllid, fel y bydd Hwb Menter yn gofyn iddynt ei wneud o bryd i'w gilydd.
12. Mae'r Hwb Menter yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n derbyn cyllid sicrhau eu bod nhw'n gweithredu polisi cyfle cyfartal fel cyflogwyr, fel defnyddwyr gwirfoddolwyr, ac fel darparwyr gwasanaethau, waeth beth fo'u hil, rhyw/adnabyddiaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed neu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, unrhyw anabled.
13. Bydd hawl gan yr Hwb Menter amrywio, dal yn ôl neu derfynu unrhyw ran o'r cyllid neu'r cyfan ohono, a/neu fynnu bod rhan neu'r cyfan o'r cyllid a dalwyd eisoes yn cael ei ad-dalu: (i) os yw'r Cwmni'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amod neu ddarpariaeth a nodir yn y ddogfen Telerau ac Amodau hon, nodiadau Canllaw y cais; (ii). canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan neu ar ran y Cwmni mewn perthynas â

chaffael y cynnig hwn o gyllid, neu mewn hawliad am daliad cyllid yn anghywir neu'n gamarweiniol i'r graddau mae'r Hwb Menter yn ystyried yn berthnasol; (iii). mae'r Hwb Menter yn amau bod y Cwmni a/neu unrhyw un o'i swyddogion yn ymwneud â gweithgarwch twyllodrus.

14. Gall yr Hwb Menter amrywio a/neu atal unrhyw daliadau neu'r cyfan o'r taliadau cyllid, a/neu ofyn am ad-daliad o'r cyllid, ynghyd â llog o'r dyddiad talu: (i) os oes angen iddynt wneud hynny o ganlyniad i unrhyw rwymedigaeth o dan Gyfraith Gymunedol; neu (ii) yn eu barn nhw ei bod yn angenrheidiol sicrhau bod y cyllid a ddarperir yn unol â'r llythyr hwn ynghyd ag unrhyw gyllid arall sydd wedi'i dderbyn neu'n debygol o ddod i law tuag at y Prosiect yn reolaeth cymorth gwladwriaethol/cymhorthdal cyfreithlon.

15. Os bydd busnes yr unigolyn yn cael ei ddirwyn i ben neu os bydd yn cael ei ddiddymu (gan gynnwys bod yn destun unrhyw orchymyn gweinyddu), derbynnydd, methdaliad, ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant arall o'i ddyledion gyda'i gredydwy'r neu unrhyw ddigwyddiad tebyg neu gyfatebol i unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn y paragraff hwn, yna bydd gan Hwb Menter yr hawl i adennill ar gais oddi wrth y Cwmni y cyllid a dalwyd, ac ni fydd unrhyw arian pellach yn ddyledus nac yn daladwy gan Hwb Menter i'r Cwmni nac i unrhyw un sy'n gweithredu drosto, neu ar ei ran, neu yn ei enw. Bernir bod unrhyw gyfeiriadau at swm y cyllid a dalwyd, neu sydd i'w dalu i'r Cwmni yn golygu, ac yn gyfyngedig i'r swm o arian a dalwyd mewn gwirionedd i'r Cwmni gan yr Hwb Menter ar yr adeg mae unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeiriwyd atynt uchod yn digwydd.

16. Bydd yr unigolyn/cwmni, yn ddi-dâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion yr Hwb Menter neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw amser rhesymol, ymweld â'i eiddo a/neu archwilio unrhyw rai o'i weithgareddau, a/neu archwilio'r asedau neu eitemau cost prosiect a brynwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid, a/neu i archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon y Cwmni ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn y swyddogion, ymwneud mewn unrhyw fodd â'r defnydd o gyllid gan y cwmni. Mae'r amod hwn heb ragfarn ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan yr Hwb Menter neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant iddo.

17. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth i ddogfennau a gwybodaeth yn ymwneud â chyllid, a ddarperir gan yr Hwb Menter. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gallant fod eu hangen a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny fod yn bresennol ger eu bron at ddiben o'r fath. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar bob adeg resymol.

18. Bydd y Cwmni yn caniatáu i archwilwyr Cymru/y DU, Cyngor Gwynedd neu Gyngor Ynys Môn weld dogfennau a gwybodaeth yn ymwneud ag ariannu'r Prosiect. Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y personau sy'n rheoli neu'n dal dogfennau sy'n ymwneud â'r Prosiect yn rhoi i'r archwilwyr unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gallant fod eu hangen.

19. Os daw'r Cwmni yn ymwybodol o ddirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod yr archwiliad o gyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, rhaid iddo hysbysu ei swyddog Hwb Menter ar unwaith.

20. Rhaid i'r Cwmni gydnabod, trwy gynnwys geiriad priodol (ar ddatganiadau i'r wasg) a brandio (ar gyhoeddusrwydd, deunyddiau cyfathrebu ac arwyddion), y cyfraniad a wneir i'w weithgareddau gan yr Hwb Menter. Dylai'r Cwmni gysylltu â'i swyddog Hwb Menter am fanylion pellach.

21. Bydd Hwb Menter yn gwneud ymdrechion rhesymol i dalu hawliadau yn brydlon, ond nid ydynt yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â cholled sydd i'w briodoli i unrhyw oedi wrth dalu hawliadau, neu i'w briodoli i unrhyw ataliad, gostyngiad neu ganslo cyllid.

22. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r cyllid a ddarperir at ddibenion plaid wleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol arbennig; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel y nodir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr

hwn; (8) Costau a dalwyd neu gostau a ad-dalwyd wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1(b); (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath arall o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri arnom.

23. Drwy lofnodi'r cais rydych chi'n tystio nad oes unrhyw ymgyfreitha neu gyflafareddu yn gyfredol nac yn yr arfaeth neu, cyn belled ag y gwyddoch, dan fygythiad, sydd wedi neu a allai gael effaith andwyol ar eich gallu i berfformio a chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau na'ch gallu i barhau i fasnachu fel busnes yng Nghymru.

24. Drwy lofnodi'r cais rydych chi wedi datgelu i ni'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol mae angen eu datgelu i'n galluogi i gael golwg gywir o'ch busnes a'ch materion (cyfredol a darpar), neu y dylid ei roi i unrhyw berson yn ystyried darparu cyllid i chi.

25. Drwy lofnodi'r cais rydych chi'n cytuno i gydweithio'n llawn â swyddogion yr Hwb Menter i fonitro eich defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau.

26. Rhaid i chi gadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn a chywir sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r cais rydych chi wedi'i wneud ac yn ddi-dâl, caniatáu unrhyw swyddog neu swyddogion Hwb Menter/Hwb Menter neu Swyddfa Archwilio Cymru neu ei gontractwyr enwebedig ar unrhyw adeg resymol ac ar rybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) yn cael ei roi i chi i ymweld â'ch safle a/neu i archwilio unrhyw rai o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill, sut bynnag maen nhw wedi'u storio ac sydd ym marn resymol swyddog o'r fath yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i'ch defnydd o'r Pecyn Cymorth Ariannu. Mae'r ymrwymiad hwn heb ragfarn ac yn amodol ar unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan yr Hwb Menter neu Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod.

27. Nid oes dim yn yr Amodau sy'n gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).

28. Mae'n rhaid i chi ein sicrhau yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddioddefwyd neu a ysgwyddwyd gennym ni yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol sy'n codi o ganlyniad i, neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych chi, i gyflawni'n llawn neu'n rhannol unrhyw rwymedigaeth sydd gennych chi i drydydd parti.